**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bwriad yr arddodiad oedd cyflwyno diweddariad blynyddol o fanylion y gweithlu a’u cyflogaeth, yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu’r gweithlu  a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen i’r Cabinet adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth gorfforaethol yn y maes allweddol hwn i’r dyfodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 7:YSGOL ABERSOCH

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd rhoi caniatâd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae niferoedd yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn isel yn gyffredinol, er mae cwymp diweddar wedi golygu mai 9 o ddisgyblion sydd bellach yn mynychu'r ysgol. Rhagwelir y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf, ac mae rhagamcanion Medi 2018 yn rhagweld mai 9 disgybl fydd ar y gofrestr ym Medi 2021.

O ganlyniad i'r heriau hyn, rhoddwyd caniatâd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i ystyried opsiynau posib ar gyfer dyfodol Ysgol Abersoch.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 8:ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AR ORFODAETH GWASTRAFF

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd gweithredu argymhellion ymchwiliad gweithgor Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n cynnwys y canlynol

- Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 i 47ZA sy'n ymwneud a chynhwysyddion gwastraff, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth
- Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydnabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 i drigolion ar eu diwrnodau casglu gwastraff c ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.
- Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hyn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.
- Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn Rhybudd o Gynnig y Cynghorydd Lesley Day i gyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2019, bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod i ofyn i'r Aelodau Cabinet ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion a busnesau. Yn unol â phrosesau Craffu'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a benderfynodd mai cynnal ymchwiliad Craffu ar y mater a fyddai'r ffordd orau ymlaen.

Mae'r argymhellion wedi codi 'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd fel rhan o'r ymchwiliad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 9:TROSOLWG ARBEDION 2019/20: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

## PENDERFYNIAD

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb Aelodau perthnasol o'r Cabinet ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 10:CYTUNDEB CYLLIDEB GYFUN AR GYFER LLETY CARTREFI GOFAL I BOBL HYN 2019-20

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd nodi'r adroddiad ac i nodi'r cynnydd a wnaed yn rhanbarthol o ran bodloni gofynion Rhan 9 o Ddeddf 2014, sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hyn.

Cymerwdwywyd sefydlu cronfa gyfun, nad yw'n rhannu risg, ar gyfer llety cartefi gofal i bobl hyn, fel nodwyd yn yr adroddiad, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya, ac i'r trefniadau fod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Cymeradwyo i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lloel y Gogledd i reoleiddio sefydliad, gweithrediad a threfniadau llywodraethu'r gronfa gyfun am gyfnod o dair blynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 wedi gosod dyletswyddau i greu cynllun rhanbarthol i sefydlu a chynnal cronfa ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 17 Medi 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Hydref 2019 |

## PWNC

Eitem 11:ADOLYGIAD RHEOLAETHOL

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd peidio â llenwi swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd yn wag er mwyn arbrofi i weld a ellir gwneud hebddi.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym Mis Mai eleni bu i'r Prif Weithredwr gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar drefniadau rheolaethol y Cyngor a arweiniodd at leihad yn nifer yr Uwch Reolwyr o fewn y Cyngor. Yn yr un adroddiad bu i'r Prif Weithredwr nodi fod gofyn i ystyried os oes angen dau gyfarwyddwr Corfforaethol. Pwysleisiwyd yr angen am dystiolaeth cyn gwneud hyn.

Gan fod un swydd Cyfarwyddwr bellach yn wag, mae'n rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwr ac i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol weld os oes modd iddynt wneud heb y swydd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad